**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**ADRODDIAD I'R PWYLLGOR DEDDFAU**

**Rheoliadau Bwyd Meddygol (Cymru) 2000**

**Y Cefndir**

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddeb y Comisiwn 1999/21/EC drwy osod rheolau ar ddulliau marchnata "bwyd meddygol". Bwyd yw hwn y mae'r Gyfarwyddeb yn ei ddosbarthu yn fwyd sydd wedi'i brosesu yn arbennig neu wedi'i fformwleiddio yn arbennig ar gyfer rheoli, o dan oruchwyliaeth feddygol, ddeiet y cleifion hynny y mae arnynt angen deiet arbennig.

Y pwerau y gwneir y Rheoliadau odanynt yw'r ddwy adran ganlynol o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 –

Adran 6(4). Per i bennu pa awdurdodau sydd i orfodi'r Rheoliadau a'u gweithredu.

Adran 17(1). Per i reoliadau wneud darpariaeth mewn perthynas â bwyd, y gelwir amdani gan unrhyw rwymedigaeth Gymunedol.

Adran 26(1)(a). Caiff Rheoliadau wahardd gweithrediadau masnachol mewn perthynas â bwyd neu reoli sut y cânt eu cyflawni.

Adran 26(3). Caiff Rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch sut y mae tramgwyddau o dan y Rheoliadau i gael eu profi, ac ynghylch y gosb y gellir ei gosod.

Adran 48(1). Caiff Rheoliadau gymhwyso darpariaethau a geir yn y Ddeddf, gyda diwygiadau ac addasiadau, a chynnwys darpariaethau gwahanol hefyd ar gyfer achosion gwahanol etc, a gwneud darpariaeth ganlyniadol.

Daw'r Rheoliadau i rym ar 1 Tachwedd 2001.

Cafodd Rheoliadau i'r un perwyl, a fydd yn dod i rym ar yr un dyddiad, eu gwneud ar gyfer Lloegr ar 21 Mawrth 2000 (OS Rhif 2000/845).

**Rheol Sefydlog 11.5**

Ar ôl cael cyfle i ystyried drafft cynnar o'r Rheoliadau hyn, llwyddodd Cynghorwyr Cyfreithiol y

Pwyllgor i godi nifer o bwyntiau sydd bellach wedi’u cymryd i ystyriaeth yn y drafft terfynol. Gan hynny, nid oes dim pwyntiau wedi’u nodi fel materion y mae angen i’r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt yn unol â darpariaeth Rheol Sefydlog 11.5.

Er hynny, mae yna ddau sylw cyffredinol y tynnir sylw atynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

**<u>Rheoliadau 2 a 7(a)</u>**
Darperir yn Rheoliad 2 ar gyfer ystyr estynedig i "sell", ond yn Rheoliad 7(a) ceir darpariaeth ar wahân ar gyfer ystyr estynedig i "sale". Buasai’n symlach i’r defnyddwyr pe bai’r darpariaethau hyn wedi’u cyfuno.

**<u>Rheoliadau 2 a 3(2)</u>**
Yn y diffiniad o "gwerthu" yn Rheoliad 2, defnyddir y gair "hysbysebu" i olygu "advertise". Er hynny, defnyddir yr un gwreiddyn yn rheoliad 3(2), ar gyfer "designated notifier" – "hysbysydd dynodedig". O gofio’r gwahaniaeth ystyr, buasai’n well pe buasai modd defnyddio terminoleg wahanol.

**J H TURNBULL**
**Cynghorydd Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfau**

**Cyf: LAD 01-01-073**

**14 Mehefin 2000**